Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Canllawiau Cynllunio Strategol ar gyfer Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol Gwastadeddau Gwent (Polisi 9 Cymru'r Dyfodol)

Adroddiad Amgylcheddol Drafft

Crynodeb Annhechnegol

Llywodraeth Cymru: Drafft Ymgynghori 17 Chwefror – 31 Mawrth 2026

**Cynnwys**

1. Diben y Crynodeb Annhechnegol ........ 3

2. Beth yw Canllawiau Cynllunio Strategol Gwastadeddau Gwent? ........ 3

3. Beth yw'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig? ........ 4

4. Prosesau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a Chanllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent Hyd Yma ........ 4

5. Sut mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi'i gynnal ........ 5

6. Canlyniadau'r Arfarniad – Canllawiau Cynllunio Strategol Drafft Gwastadeddau Gwent ........ 8

7. Sut mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi dylanwadu ar Ganllawiau Cynllunio Strategol Gwastadeddau Gwent ........ 20

8. Osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol a chynyddu hyd yr eithaf ar effeithiau cadarnhaol ........ 20

9. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ........ 20

10. Monitro effeithiau arwyddocaol ........ 21

## 1. Diben y Crynodeb Annhechnegol

1.1. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Adroddiad Amgylcheddol Drafft o'r Canllawiau Cynllunio Strategol ar gyfer Gwastadeddau Gwent mewn iaith annhechnegol.

## 2. Beth yw Canllawiau Cynllunio Strategol Gwastadeddau Gwent?

2.1. Mae Gwastadeddau Gwent yn ardal isel, fawr yn ne-ddwyrain Cymru, sydd wedi'i lleoli rhwng Afon Rhymni ac Afon Gwy. Mae cynnwys tir a adferwyd â rhwydwaith o sianeli draenio, rhai a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill a reolir gan berchenogion tir lleol.

2.2. Cydnabyddir Gwastadeddau Gwent am eu bywyd gwyllt pwysig, eu tirweddau a'u gwerth hanesyddol, ac mae ganddynt sawl amddiffyniad lleol, cenedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol. Mae'r ardal hon yn hollbwysig i helpu Cymru i addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lleihau ei effeithiau ac i gefnogi bioamrywiaeth. Mae'r Gwastadeddau hefyd yn darparu cynefinoedd cynhaliol allweddol ar gyfer safleoedd gwarchodedig yn yr ardal fel Aber Afon Hafren ac Afon Gwy ac Afon Wysg.

2.3. Er gwaethaf yr amddiffyniadau hyn, mae gwaith datblygu yn peri risg i Wastadeddau Gwent, yn arbennig oherwydd eu lleoliad ger dinasoedd mawr, eu topograffeg wastad a'u seilwaith da. Gallai darnio a diraddio a achosir gan y fath bwysau ac arferion rheoli tir amharu ar allu'r ardal i gynnal bywyd gwyllt a chynefinoedd ac ymdopi â'r newid yn yr hinsawdd.

2.4. Yn 2021, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i lunio canllawiau cynllunio cenedlaethol ar gyfer Gwastadeddau Gwent er mwyn helpu i gyflawni gofynion Polisi 9 yn Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040[1]. Bydd y canllawiau hyn yn helpu i ddiogelu ac atgyfnerthu rhwydweithiau ecolegol yr ardal yn unol â pholisi cenedlaethol. Unwaith y byddant wedi'u cwblhau, caiff y canllawiau eu defnyddio ochr yn ochr â pholisïau cynllunio eraill i lywio penderfyniadau ynghylch datblygu a chadwraeth ar Wastadeddau Gwent.

[1] Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 | LLYW.CYMRU

## 3. Beth yw'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig?

3.1 Proses o arfarnu cynnwys y canllawiau yn erbyn fframwaith o amcanion cynaliadwyedd a chwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau yw'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Diben hyn yw helpu i sicrhau bod effeithiau negyddol yn cael eu hosgoi ac y cynyddir hyd yr eithaf ar effeithiau cadarnhaol, yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Mae proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn sicrhau bod y canllawiau mor gynaliadwy â phosibl.

3.2 Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn integreiddio'r asesiadau canlynol ac yn bodloni gofynion deddfwriaethol y canlynol yn llawn: Arfarniad Cynaliadwyedd; Rheoliadau AAS; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015); Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb; Asesiad o'r effaith ar hawliau plant; Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, y Ddyletswydd Rheoli Tir Strategol (Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023) a Pholisi Adnoddau Naturiol (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016). Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hefyd yn cyfrif am ofynion anneddfwriaethol asesiadau sy'n ymwneud â Phrawfesur Gwledig; Effeithiau ar Iechyd; Newid yn yr Hinsawdd; a Datblygu Economaidd.

3.3 Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi'i lywio gan ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r dull gweithredu integredig hwn, sy'n cynnwys nifer o asesiadau gwahanol, wedi'i gwneud yn bosibl i ystyriaeth gyfannol a chyflawn gael ei rhoi i oblygiadau'r canllawiau. Mae ymgysylltu a chydweithio wedi llywio'r gwaith hyd yma a byddant yn parhau i wneud hynny gan gynnwys mewn perthynas â'r fersiwn derfynol o'r canllawiau. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hwn yn ei gwneud yn bosibl i'r penderfyniadau a wnaed a'r effeithiau posibl gael eu nodi mewn ffordd gyson a thryloyw.

## 4. Prosesau'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a Chanllawiau Cynllunio Gwastadeddau Gwent Hyd Yma

4.1 Mae'r gwaith o lunio'r canllawiau wedi cael ei seilio ar, a'i lywio gan, dystiolaeth ac ymgysylltu a chydweithio â rhanddeiliaid. Buwyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y broses o ddatblygu'r canllawiau ac mae hynny wedi chwarae rôl bwysig o ran llywio'r asesiad a'r canllawiau. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer datblygu'r canllawiau a

roddodd gyngor arbenigol ac a gyfrannodd at ddehongli'r dystiolaeth a'r cyd-destun cynllunio, gan helpu i sicrhau bod y canllawiau yn cyd-fynd â Cymru'r Dyfodol Polisi 9.Sicrhaodd gweithgarwch ymgysylltu ychwanegol â rhanddeiliaid statudol ac anstatudol fod y sefydliadau perthnasol yn cael y wybodaeth ddiweddar a'u bod yn gallu cyflwyno sylwadau ar ganfyddiadau cynnar.

4.2 Casglodd Cam Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ragor o dystiolaeth gan gynnwys dwyn ynghyd y cynlluniau, y polisïau a'r rhaglenni perthnasol a dadansoddi amrywiaeth o dystiolaeth er mwyn nodi problemau a chyfleoedd allweddol. Meithrinodd y dystiolaeth hon ddealltwriaeth o'r llinell sylfaen amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ac ystyriodd sut mae'r amodau hyn yn debygol o newid pe na bai'r canllawiau yn cael eu rhoi ar waith. Yna, cafodd y llinell sylfaen hon ei dadansoddi er mwyn nodi'r problemau a'r cyfleoedd allweddol yn ymwneud â chynaliadwyedd yr oedd angen i'r canllawiau a oedd yn datblygu ymdrin â nhw. Yn dilyn ymgynghoriad a oedd yn canolbwyntio ar yr adroddiad Cwmpasu drafft, cafodd ei mireinio. Mae'r dystiolaeth a'r gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori oll wedi llywio Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, a nododd yr 16 o amcanion a chwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau sydd wedi'u defnyddio i asesu'r canllawiau yn eu herbyn.

## 5. Sut mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi'i gynnal

5.1 Mae cwmpas daearyddol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi'i lywio gan gwmpas y canllawiau h.y. ar raddfa is-ranbarthol o fewn Gwastadeddau Gwent. Mae'r amserlen ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn adlewyrchu amserlen Cymru'r Dyfodol a Pholisi 9 gan mai dyma y mae'r canllawiau yn ceisio ei gefnogi. Bwriad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yw ei gwneud yn bosibl i egwyddorion datblygu cynaliadwy gael eu hymgorffori yn y canllawiau.

### *Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig*

5.2 Un o allbynnau allweddol Cam Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig oedd Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yw'r prif adnodd asesu a ddefnyddiwyd yn ystod yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac mae'n cynnwys cyfres o 16 o Amcanion Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sy'n

cwmpasu problemau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a nodwyd yn ystod Cam Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a set o gwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau. Nodir amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn Nhabl 1-1 isod.

5.3 Mae'r fframwaith hwn wedi'i ddefnyddio i asesu'r tair Egwyddor Strategol a'r 14 o Gamau Gweithredu. Mae'n nodi i ba raddau y gallent gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar draws yr holl asesiadau sydd wedi'u hymgorffori. Noder bod yr Egwyddorion Strategol a'r Camau Gweithredu a aseswyd yn adlewyrchu'r geiriad a'r rhifau pan gynhaliwyd yr asesiad ac, felly, y byddant yn wahanol i'r rhai a nodir yn y Canllawiau drafft yr ymgynghorir arnynt. Y rheswm dros hyn yw bod yr asesiad wedi arwain at nifer o argymhellion i wella geiriad yr Egwyddorion Strategol a'r Camau Gweithredu a'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith (gweler Tabl 2-5 yn y Prif Adroddiad Amgylcheddol). Yn y Canllawiau drafft yr ymgynghorir arnynt, Cam Gweithredu 11 fel y'i haseswyd yw Cam 6. Felly, bydd Camau Gweithredu 6-10 wedi symud i fyny un rhif a Chamau Gweithredu 7-11 fyddant yn y Canllawiau drafft eu hunain.

Tabl 1-1 Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yr aseswyd y Canllawiau yn ei erbyn

| Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | |
|---|---|
| 1 | Hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy a gwella gwydnwch yr economi wledig ledled Gwastadeddau Gwent |
| 2 | Annog a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy |
| 3 | Annog cyfleoedd i gynyddu cyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob grŵp oedran drwy ddefnyddio tirwedd Gwastadeddau Gwent fel adnodd dysgu naturiol |
| 4 | Hyrwyddo cyfleoedd i annog diogelu a gwella ansawdd aer |
| 5 | Atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth a chyfrannu at warchod 30% o'n tir, dŵr croyw a môr a'i reoli'n effeithiol  ar gyfer natur erbyn 2030 |
| 6 | Cyfrannu at leihau a rheoli perygl llifogydd |
| 7 | Cyfrannu at reoli a chynnal a chadw system ddraenio Gwastadeddau Gwent |
| 8 | Cyfrannu at wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol, a chymdeithasol |
| 9 | Annog cyfleoedd lle y gellir gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb |
| 10 | Hyrwyddo cyfleoedd i leihau tipio anghyfreithlon a thaflu ysbwriel |
| 11 | Cyfrannu at lesiant y Gymraeg yn y dyfodol |
| 12 | Creu cyfleoedd i warchod a gwella tirwedd a morwedd unigryw a nodedig Gwastadeddau Gwent |
| 13 | Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a gwella amgylchedd hanesyddol Gwastadeddau Gwent ar raddfa tirwedd, gan gynnwys eu hasedau treftadaeth, eu lleoliadau ac arwyddocâd diwylliannol yr ardal |
| 14 | Gwarchod a gwella cyfleoedd i allyriadau nwyon tŷ gwydr gael eu lleihau, eu storio a'u hatafaelu ledled Gwastadeddau Gwent. |
| 15 | Diogelu a gwella ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr |
| 16 | Diogelu daeareg a phridd a hyrwyddo'r gwaith o ddefnyddio a rheoli tir yn gynaliadwy |

## 6. Canlyniadau'r Arfarniad – Canllawiau Cynllunio Strategol Drafft Gwastadeddau Gwent

6.1 Mae'r canllawiau wedi'u strwythuro fel a ganlyn:

- Diben, Cwmpas a Statws y Canllawiau – mae'n nodi pam mae angen y canllawiau, eu diben a'u statws.
- Datblygu'r Canllawiau – mae'n nodi'r ffynonellau o dystiolaeth a'r wybodaeth sylfaenol a'r broses asesu.
- Cyd-destun Cynlluniau Datblygu a Pholisi – mae'n nodi cyd-destun cynllunio'r canllawiau.
- Gwastadeddau Gwent – tirwedd unigryw yng Nghymru – mae'n rhoi trosolwg o Wastadeddau Gwent a'u cyd-destun.
- Heriau Presennol sy'n Effeithio ar Wastadeddau Gwent – mae'n nodi'r problemau a'r bygythiadau sy'n effeithio ar y Gwastadeddau.
- Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol Gwastadeddau Gwent – dynodiad gofodol – mae'n nodi cefndir y gwaith mapio rhwydweithiau ecolegol gwydn.
- Egwyddorion ar gyfer Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, Parth Craidd a Pharth Adfer (Cyfleoedd) Gwastadeddau Gwent - mae'n nodi'r tair Egwyddor Strategol a'r 14 o Gamau Gweithredu a'u cydberthynas.

6.2 Mae wedi bod yn broses iteraidd ac mae canlyniad yr asesiad wedi bwydo i mewn i'r fersiwn ymgynghori derfynol o'r canllawiau.

### *Canlyniadau'r Arfarniad*

6.3 Mae'r tabl canlynol, sef Tabl 1-2, yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau'r asesiad ar gyfer pob Egwyddor Strategol a Cham Gweithredu. Yn ystod yr asesiad, ystyriwyd a oedd dewisiadau amgen rhesymol i'w cael ar gyfer pob un. Ystyriwyd nad oedd unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol am fod yr Egwyddorion a'r Camau Gweithredu eisoes wedi'u nodi yn PCC a Cymru'r Dyfodol, ar y cyfan. Ni fyddai cyflwyno Egwyddorion a Chamau Gweithredu sy'n wahanol i'r hyn a nodir yn y dogfennau hyn yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol.

Tabl 1-2 – Crynodeb o'r Asesiad

| Crynodeb o Ganlyniadau'r Asesiad a'r Asesiad o Effeithiau Cronnol |
|---|
| **Yr Economi – Twf Economaidd Cynaliadwy**<br>Amcan 1 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy a gwella gwydnwch yr economi wledig ledled Gwastadeddau Gwent<br><br>***Materion a nodir yn Atodlen 2(6) i Reoliadau ASS yr Effeithir Arnynt: Poblogaeth, iechyd pobl, ffactorau hinsoddol ac asedau materol*** |
| Disgwylir i'r canllawiau gael effaith gadarnhaol ar dwf economaidd cynaliadwy. Nod y canllawiau yw sicrhau gwydnwch ecosystemau ac atgyfnerthu rhwydweithiau ecolegol ar raddfa tirwedd. Nid yw'n annog gwaith datblygu yn uniongyrchol ond bydd yn sicrhau bod unrhyw waith datblygu sy'n digwydd ledled yr Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn gynaliadwy ac yn briodol a'i fod yn ceisio osgoi effeithiau negyddol a chynyddu hyd yr eithaf ar effeithiau cadarnhaol.<br><br>Mae'r asesiad yn cydnabod, yn y byrdymor, y gallai fod cymysgedd o effeithiau cadarnhaol a negyddol ond y bydd y rhain yn dod yn gadarnhaol y tymor canolig i'r hirdymor.<br><br>Mae Camau Gweithredu A9 ac A10 yn cael effaith niwtral am eu bod yn ymwneud ag argaeledd dŵr a hydroleg a rheoli'r 'reens' a'r ffosydd at ddibenion amaethyddol ac nad ystyrir eu bod yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar dwf economaidd na'r economi wledig.<br><br>Ar gyfer Camau Gweithredu 7-11, dylid nodi bod y Parth Craidd eisoes yn cael ei warchod i gryn raddau drwy sawl dynodiad statudol, gan gynnwys SoDdGAau. Felly, fel y nodir yn PCC, ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn gwaith datblygu yn y Parth hwn. O ganlyniad, bydd maint a nifer y cynigion datblygu sy'n debygol o gael eu cyflwyno yn gyfyngedig iawn. Felly, dylid darllen canlyniadau'r asesiad yng nghyd-destun y potensial datblygu cyfyngedig iawn hwn. |
| **Yr Economi – Cyfleoedd ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy**<br>Amcan 2 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Annog a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy<br><br>***Materion a nodir yn Atodlen 2(6) i Reoliadau ASS yr Effeithir Arnynt: Poblogaeth, iechyd pobl, ffactorau hinsoddol, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol a thirwedd*** |
| Disgwylir i'r canllawiau gael effaith gadarnhaol ar dwristiaeth gynaliadwy ar Wastadeddau Gwent. Drwy ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, caiff gwerth tirwedd, gwerth diwylliannol a gwerth treftadaeth yr ardal ei warchod a'i wella. Mae hyn yn ychwanegu at ei hapêl fel cyrchfan i dwristiaid ac, felly, gallai diddordeb mewn cynigion ar gyfer datblygiadau |

| |
|---|
| hamdden effaith isel gynyddu. Gallai hyn greu amodau cynhaliol ar gyfer busnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes sy'n gysylltiedig â'r diwydiant twristiaeth megis hamdden a'r economi ymwelwyr. Fodd bynnag, cydnabyddir nad twf economaidd yw prif ysgogydd y canllawiau hyn.<br><br>Mae'r asesiad yn cydnabod, yn y byrdymor, y gallai fod cymysgedd o effeithiau cadarnhaol a negyddol ond y bydd y rhain yn dod yn gadarnhaol y tymor canolig i'r hirdymor.<br><br>Mae Camau Gweithredu A9 ac A10 yn cael effaith niwtral am eu bod yn ymwneud ag argaeledd dŵr a hydroleg a rheoli'r 'reens' a'r ffosydd at ddibenion amaethyddol ac nad ystyrir eu bod yn cael unrhyw effaith uniongyrchol o ran darparu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy.<br><br>Ar gyfer Camau Gweithredu 7-11, dylid nodi bod y Parth Craidd eisoes yn cael ei warchod i gryn raddau drwy sawl dynodiad statudol, gan gynnwys SoDdGAau. Felly, fel y nodir yn PCC, ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn gwaith datblygu yn y Parth hwn. O ganlyniad, bydd maint a nifer y cynigion datblygu sy'n debygol o gael eu cyflwyno yn gyfyngedig iawn. Felly, dylid darllen canlyniadau'r asesiad yng nghyd-destun y potensial datblygu cyfyngedig iawn hwn. |
| **Addysg**<br>Amcan 3 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Annog cyfleoedd i gynyddu cyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob grŵp oedran drwy ddefnyddio tirwedd Gwastadeddau Gwent fel adnodd dysgu naturiol<br><br>***Materion a nodir yn Atodlen 2(6) i Reoliadau ASS yr Effeithir Arnynt: Poblogaeth ac iechyd pobl*** |
| Rhagwelir y bydd y canllawiau yn cael effaith niwtral ar addysg, yn gyffredinol. Fodd bynnag, cydnabuwyd y gallai cynyddu seilwaith gwyrdd a gwella gwydnwch ecosystemau gael effaith gadarnhaol anuniongyrchol drwy warchod a gwella'r ardal a darparu adnodd addysgol. Mae hyn yn adlewyrchu'r rhannau lle mae dylanwad y canllawiau yn anuniongyrchol neu'n ansicr, yn hytrach na dynodi effeithiau andwyol. |
| **Ansawdd Aer**<br>Amcan 4 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Hyrwyddo cyfleoedd i annog diogelu a gwella ansawdd aer<br><br>***Materion a nodir yn Atodlen 2(6) i Reoliadau ASS yr Effeithir Arnynt: Poblogaeth, iechyd pobl, aer a ffactorau hinsoddol*** |
| Ystyrir bod y canllawiau yn cael effeithiau niwtral yn bennaf gyda rhai effeithiau cadarnhaol yn yr hirdymor neu ychydig o gamau gweithredu lle mae ansicrwydd ynglŷn â'u heffaith gyffredinol o ran diogelu a gwella ansawdd aer.<br><br>Mae hyn i'w briodoli i'r ffaith mai ffactorau allanol sy'n dylanwadu ar heriau sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer yn yr ardal, gan gynnwys gweithgarwch |

diwydiannol presennol ger y Gwastadeddau a phroblemau ehangach sy'n gysylltiedig â thraffig. Rhagwelwyd yr effeithiau cadarnhaol gydag Egwyddor Strategol 2 a Chamau Gweithredu A5, A7 ac A8 sy'n ymwneud â'r Parth Craidd. Mae'r rhain yn sicrhau bod sylw dyladwy yn cael ei roi i'r dirwedd, y nodweddion a'r cynefinoedd cynhaliol mewn cynigion datblygu a bod dynodiadau'r ardal yn cael eu cydnabod, gan gefnogi gwelliannau i ansawdd aer. Roedd yn anos rhagweld Camau Gweithredu A1, A6, A11 ac A14 am fod ansicrwydd ynglŷn â sut y gallai'r rhain gael eu cyflawni a'r effaith gyffredinol ar ansawdd aer, os byddant yn cael unrhyw effaith arno.

Ar gyfer Camau Gweithredu 7-11, dylid nodi bod y Parth Craidd eisoes yn cael ei warchod i gryn raddau drwy sawl dynodiad statudol, gan gynnwys SoDdGAau. Felly, fel y nodir yn PCC, ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn gwaith datblygu yn y Parth hwn. O ganlyniad, bydd maint a swm cyffredinol y cyfraniad tuag at gyflawni'r Amcan hwn o ganlyniad i unrhyw waith datblygu arfaethedig yn gyfyngedig iawn. Felly, dylid darllen canlyniadau'r asesiad yng nghyd-destun y potensial cyfyngedig iawn hwn.

**Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna**

Amcan 5 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth a chyfrannu at warchod 30% o'n tir, dŵr croyw a môr a'i reoli'n effeithiol  ar gyfer natur erbyn 2030

***Materion a nodir yn Atodlen 2(6) i Reoliadau ASS yr Effeithir Arnynt: Bioamrywiaeth, iechyd pobl, ffawna, fflora, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsoddol ac asedau materol***

Ystyrir bod y canllawiau yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y targed o reoli 30% o'n tir, dŵr croyw a môr yn effeithiol ar gyfer natur erbyn 2030.

Mae pob un o'r Egwyddorion Strategol a'r Camau Gweithredu yn cael effaith gadarnhaol am eu bod yn canolbwyntio ar ddiogelu'r amgylchedd a helpu i sicrhau gwydnwch ecosystemau gyda rhai effeithiau yn cynyddu i lefel sylweddol yn yr hirdymor.

Ar gyfer Camau Gweithredu 7-11, dylid nodi bod y Parth Craidd eisoes yn cael ei warchod i gryn raddau drwy sawl dynodiad statudol, gan gynnwys SoDdGAau. Felly, fel y nodir yn PCC, ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn gwaith datblygu yn y Parth hwn. O ganlyniad, bydd maint a swm cyffredinol y cyfraniad tuag at gyflawni'r Amcan hwn o ganlyniad i unrhyw waith datblygu arfaethedig yn gyfyngedig iawn. Felly, dylid darllen canlyniadau'r asesiad yng nghyd-destun y potensial cyfyngedig iawn hwn.

**Hinsawdd a Pherygl Llifogydd – Perygl Llifogydd**

Amcan 6 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Cyfrannu at leihau a rheoli perygl llifogydd

| ***Materion a nodir yn Atodlen 2(6) i Reoliadau ASS: Bioamrywiaeth, iechyd pobl, ffawna, fflora, pridd, dŵr, ffactorau hinsoddol, asedau materol a thirwedd*** |
|---|
| Ystyrir bod y canllawiau yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol o ran rheoli a lleihau perygl llifogydd. Disgwylir i'r canllawiau yn gyffredinol gael dylanwad cadarnhaol ar berygl llifogydd a rheoli llifogydd, am eu bod yn cefnogi gwasanaethau ecosystemau ac yn cyfrannu at wydnwch tirwedd. Mae hefyd yn adlewyrchu rôl hanesyddol Gwastadeddau Gwent o ran rheoli dŵr a phrosesau hydrolegol. Mae dulliau rheoli presennol, gan gynnwys y strategaeth 'Daliwch y Lein' ac arferion rheoli lefel dŵr amaethyddol hirsefydlog yn parhau i chwarae rôl bwysig. Cydnabyddir bod y newid yn yr hinsawdd yn debygol o gynyddu perygl llifogydd yn gyffredinol drwy bwysau o ddigwyddiadau tywydd eithafol a byddai'r canllawiau yn helpu i leihau effeithiau. Mae hyn yn cynnwys drwy ddarparu seilwaith gwyrdd strategol a gydnabyddir fel ffynhonnell bosibl ar gyfer darparu swyddogaeth ategol ar gyfer rheoli perygl llifogydd drwy wella prosesau naturiol yn y dirwedd.<br><br>Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r Egwyddorion Strategol a'r Camau Gweithredu gael effeithiau cadarnhaol yn yr hirdymor. Y rheswm dros hyn yw eu bod yn creu cyfleoedd i wella canlyniadau rheoli perygl llifogydd drwy eu cyfraniadau i fudd net i fioamrywiaeth o waith datblygu yn yr Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol. Gallai'r cyfraniadau hyn helpu i wella cysylltedd tirwedd sy'n elfen bwysig o weithrediad ehangach y system draenio a rheoli perygl llifogydd. Disgwylir i Gam Gweithredu A9 gael effaith gadarnhaol sylweddol yn y tymor canolig i'r hirdymor am ei fod yn sicrhau bod argaeledd dŵr a hydroleg yn cael eu hystyried mewn cynigion datblygu, gan gael effaith uniongyrchol o ran sicrhau bod perygl llifogydd yn cael ei reoli'n effeithiol.<br><br>Ar gyfer Camau Gweithredu 7-11, dylid nodi bod y Parth Craidd eisoes yn cael ei warchod i gryn raddau drwy sawl dynodiad statudol, gan gynnwys SoDdGAau. Felly, fel y nodir yn PCC, ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn gwaith datblygu yn y Parth hwn. O ganlyniad, bydd maint a swm cyffredinol y cyfraniad tuag at gyflawni'r Amcan hwn o ganlyniad i unrhyw waith datblygu arfaethedig yn gyfyngedig iawn. Felly, dylid darllen canlyniadau'r asesiad yng nghyd-destun y potensial cyfyngedig iawn hwn.<br><br>Aseswyd bod Cam Gweithredu A4 yn niwtral am ei fod yn canolbwyntio ar reoli rhywogaethau penodol ac nad yw'n effeithio'n uniongyrchol ar lifogydd. Mae effeithiau Camau Gweithredu A6 ac A14 yn ansicr o hyd. Mae'n bosibl y gallai sicrhau budd net i fioamrywiaeth oddi ar y safle gael rhai effeithiau cadarnhaol ar berygl llifogydd ond bydd y canlyniadau yn dibynnu ar atebion lleol nad ydynt wedi'u diffinio eto. Felly, nid oes modd nodi i ba raddau y bydd Camau Gweithredu A6 ac A14 yn cyfrannu at leihau neu reoli perygl llifogydd. |
| **Hinsawdd a Pherygl Llifogydd – Draenio**<br>Amcan 7 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Cyfrannu at reoli a chynnal a chadw system ddraenio Gwastadeddau Gwent |

| |
|---|
| ***Materion a nodir yn Atodlen 2(6) i Reoliadau ASS: Bioamrywiaeth, ffawna, fflora, pridd, dŵr, ffactorau hinsoddol, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol a thirwedd*** |
| Ystyrir bod y canllawiau yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar system ddraenio Gwastadeddau Gwent. Mae'r canllawiau yn effeithio'n uniongyrchol ar y gwaith o reoli a chynnal system ddraenio Gwastadeddau Gwent drwy gefnogi prosesau symud a storio dŵr a diogelu'r system hydrolegol ehangach. Mae'r Egwyddorion Strategol yn hyrwyddo gwelliannau a rheoli'r 'reens', y 'grips' a'r nodweddion draenio ehangach drwy sicrhau na fydd gwaith datblygu yn amharu ar y systemau hyn, Fodd bynnag, mae ei effeithiolrwydd yn dibynnu ar y camau gweithredu a'r arferion rheoli tir sy'n bwydo i mewn iddo, am fod rhwydwaith draeniau Gwastadeddau Gwent yn hanfodol i fioamrywiaeth a chymeriad y dirwedd. Drwy atgyfnerthu rhwydweithiau ecolegol a helpu i wella gweithrediad y dirwedd, mae'r cysylltiadau hyn yn cefnogi'r prosesau hydrolegol sefydledig sy'n nodweddiadol o Wastadeddau Gwent ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at y gwaith parhaus o reoli a chynnal y system ddraenio. Yn yr hirdymor, disgwylir i Egwyddor Strategol 3 a nifer o Gamau Gweithredu gynyddu eu heffaith er mwyn cael effaith gadarnhaol sylweddol. Drwy atgyfnerthu cysylltedd ecolegol a chefnogi prosesau draenio naturiol, gan gynnal cyfanrwydd y system ddraenio yn gyffredinol, caiff yr effaith hon ei mwyhau dros amser.<br><br>Disgwylir i bron pob un o'r Camau Gweithredu wneud cyfraniad cadarnhaol at gynnal y system ddraenio ar Wastadeddau Gwent. Ar gyfer Camau Gweithredu 7-11, dylid nodi bod y Parth Craidd eisoes yn cael ei warchod i gryn raddau drwy sawl dynodiad statudol, gan gynnwys SoDdGAau. Felly, fel y nodir yn PCC, ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn gwaith datblygu yn y Parth hwn. O ganlyniad, bydd maint a swm cyffredinol y cyfraniad tuag at gyflawni'r Amcan hwn o ganlyniad i unrhyw waith datblygu arfaethedig yn gyfyngedig iawn. Felly, dylid darllen canlyniadau'r asesiad yng nghyd-destun y potensial cyfyngedig iawn hwn.<br><br>Aseswyd bod Cam Gweithredu A4 yn cael effaith niwtral. Y rheswm dros hyn yw ei fod yn canolbwyntio ar reoli rhywogaethau penodol ac nad yw'n effeithio'n uniongyrchol ar lifogydd. |
| **Iechyd a Lles**<br>Amcan 8 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Cyfrannu at wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol, a chymdeithasol<br><br>***Materion a nodir yn Atodlen 2(6) i Reoliadau ASS: Poblogaeth, iechyd pobl, ffactorau hinsoddol, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol a thirwedd*** |
| Disgwylir i'r canllawiau gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant. Bydd y canllawiau yn cael dylanwad cadarnhaol, ar y cyfan, ar iechyd a llesiant |

| |
|---|
| corfforol, meddyliol a chymdeithasol. Mae hyn yn adlewyrchu rôl bosibl Gwastadeddau Gwent o ran darparu adnodd unigryw, llonydd a hamdden ar gyfer llawer o gymunedau, gan ddarparu amgylcheddau naturiol trochol sy'n cynnig cyfleoedd i orffwys, cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chysylltu â natur.<br><br>Mae'r Parth Craidd yn ardal lle mae pobl yn profi'r ymdeimlad cryfaf o hunaniaeth dirwedd, cymeriad hanesyddol a chyfoethogrwydd ecolegol oherwydd ei ddynodiadau a'i dirweddau. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd bod gan y Parth Adfer gryn botensial i sicrhau gwell buddion llesiant drwy ddarparu tirwedd a all dderbyn a chefnogi mwy o weithgarwch hamdden heb ddiraddio ei ansawdd amgylcheddol. Bydd hyrwyddo seilwaith gwyrdd drwy'r Egwyddorion Strategol yn cefnogi mynediad at fyd natur, gall hyn gryfhau cysylltiadau ledled yr Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a gwella ei gallu i gefnogi canlyniadau iechyd a llesiant. Cydnabyddir bod i'r Egwyddorion Strategol swyddogaethau gwahanol a rolau gwahanol i'w chwarae yn yr Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a'r Parth Adfer ehangach sy'n chwarae rôl hollbwysig o ran cefnogi'r Parth Craidd, sef y prif gyrchfan i ymwelwyr yn y dyfodol, yn ôl pob tebyg.<br><br>Ar gyfer Camau Gweithredu 7-11, dylid nodi bod y Parth Craidd eisoes yn cael ei warchod i gryn raddau drwy sawl dynodiad statudol, gan gynnwys SoDdGAau. Felly, fel y nodir yn PCC, ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn gwaith datblygu yn y Parth hwn. O ganlyniad, bydd maint a swm cyffredinol y cyfraniad tuag at gyflawni'r Amcan hwn o ganlyniad i unrhyw waith datblygu arfaethedig yn gyfyngedig iawn. Felly, dylid darllen canlyniadau'r asesiad yng nghyd-destun y potensial cyfyngedig iawn hwn.<br><br>Disgwylir i Gamau Gweithredu A3, A7, A10 ac A11 gael effaith niwtral yn gyffredinol oherwydd aseswyd na fyddant yn cael unrhyw effaith uniongyrchol tuag at gyflawni'r amcan hwn. Ystyrir bod effaith Cam Gweithredu A5 yn ansicr oherwydd ni ellir nodi beth yn union fydd yr effaith ar iechyd a llesiant pan nad yw manylion unrhyw gynigion yn hysbys. |
| **Poblogaethau**<br>Amcan 9 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Annog cyfleoedd lle y gellir gwella cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb<br><br>***Materion a nodir yn Atodlen 2(6) i Reoliadau ASS: Poblogaeth, iechyd pobl, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol a thirwedd*** |
| Disgwylir i'r cynnig gael effaith niwtral ar gydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb. Y rheswm dros hyn yw bod yr Egwyddorion a'r Camau Gweithredu yn canolbwyntio'n bennaf ar atgyfnerthu rhwydweithiau ecolegol a gwasanaethau ecosystemau ledled Gwastadeddau Gwent, sy'n golygu mai cyfyngedig yw eu cyfraniad uniongyrchol at gydlyniant cymdeithasol. Cydnabyddir y gall cryfhau cymeriad y dirwedd, gwella ansawdd amgylcheddol |

| |
|---|
| a darparu seilwaith gwyrdd strategol gefnogi rhyngweithio cymunedol yn anuniongyrchol drwy ddarparu mannau naturiol o ansawdd uchel.<br><br>Rhagwelir y bydd Egwyddor Strategol 2 a Chamau Gweithredu A1, A6, A8, A9 ac A14 oll yn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfer cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb. Y rheswm dros hyn yw lleoliad gwledig y Parth Craidd, lle mae cyfleoedd i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb yn fwy cyfyngedig, yn eu hanfod, nag mewn ardaloedd sy'n agosach at aneddiadau. Serch hynny, drwy ddiogelu cyfanrwydd y Parth Craidd a pharhau i sicrhau mynediad i amgylchedd naturiol unigryw a reolir yn dda, mae'r Egwyddor yn creu amodau a all hwyluso buddion cymdeithasol a buddion llesiant.<br><br>Ar gyfer Camau Gweithredu 7-11, dylid nodi bod y Parth Craidd eisoes yn cael ei warchod i gryn raddau drwy sawl dynodiad statudol, gan gynnwys SoDdGAau. Felly, fel y nodir yn PCC, ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn gwaith datblygu yn y Parth hwn. O ganlyniad, bydd maint a swm cyffredinol y cyfraniad tuag at gyflawni'r Amcan hwn o ganlyniad i unrhyw waith datblygu arfaethedig yn gyfyngedig iawn. Felly, dylid darllen canlyniadau'r asesiad yng nghyd-destun y potensial cyfyngedig iawn hwn.<br><br>Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch effaith Cam Gweithredu A5, am na ellir nodi beth yn union fydd yr effaith ar gydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb pan nad yw manylion unrhyw gynigion yn hysbys. |
| **Troseddu**<br>Amcan 10 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Hyrwyddo cyfleoedd i leihau tipio anghyfreithlon a thaflu ysbwriel<br><br>***Materion a nodir yn Atodlen 2(6) i Reoliadau ASS: Bioamrywiaeth, iechyd pobl, ffawna, fflora, pridd a dŵr*** |
| Rhagwelir y bydd y canllawiau yn cael effaith niwtral o ran lleihau tipio anghyfreithlon a thaflu ysbwriel. Y rheswm dros hyn yw bod yr Egwyddorion Strategol a'r Camau Gweithredu yn canolbwyntio ar ddiogelu'r amgylchedd, gwarchod gwasanaethau ecosystemau a gwella'r dirwedd. Awdurdodau lleol, sydd â'u polisïau a'u dulliau gorfodi eu hunain, sy'n bennaf cyfrifol am fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. |
| **Y Gymraeg**<br>Amcan 11 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Cyfrannu at lesiant y Gymraeg yn y dyfodol<br><br>***Materion a nodir yn Atodlen 2(6) i Reoliadau ASS: Poblogaeth a threftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol*** |
| Rhagwelir y bydd y canllawiau yn cael effaith niwtral ar y Gymraeg. Y rheswm dros hyn yw eu ffocws na fydd yn cryfhau nac yn gwella'r Gymraeg yn uniongyrchol. Bydd gofynion eraill yn sicrhau bod arwyddion newydd neu |

| |
|---|
| ddogfennaeth gysylltiedig ar gael yn ddwyieithog. (Gweler hefyd Amcan 13 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a threftadaeth ddiwylliannol) |
| **Cymeriad Tirwedd – Tirwedd a Morwedd**<br>Amcan 12 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Creu cyfleoedd i warchod a gwella tirwedd a morwedd unigryw a nodedig Gwastadeddau Gwent<br><br>***Materion a nodir yn Atodlen 2(6) i Reoliadau ASS: Pridd, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol a thirwedd*** |
| Disgwylir  i'r canllawiau gael effaith gadarnhaol sylweddol ar dirwedd a morwedd unigryw a nodedig Gwastadeddau Gwent. Nod y canllawiau yw diogelu bioamrywiaeth, gwella gwydnwch ecosystemau a chynnal cyfanrwydd amgylcheddol, gan helpu i gadw cymeriad unigryw yr ardal. Mae'r rhan fwyaf o'r Camau Gweithredu yn cynnig buddion eilaidd, megis gwarchod nodweddion tirwedd a morwedd allweddol. Y Camau Gweithredu sy'n cael effaith gadarnhaol sylweddol yw A1 ac A3 am fod y Camau Gweithredu hyn yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogi'r dirwedd, gyda llawer o Gamau Gweithredu eraill yn cynyddu o effaith gadarnhaol i effaith gadarnhaol sylweddol dros amser.<br><br>Ar gyfer Camau Gweithredu 7-11, dylid nodi bod y Parth Craidd eisoes yn cael ei warchod i gryn raddau drwy sawl dynodiad statudol, gan gynnwys SoDdGAau. Felly, fel y nodir yn PCC, ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn gwaith datblygu yn y Parth hwn. O ganlyniad, bydd maint a swm cyffredinol y cyfraniad tuag at gyflawni'r Amcan hwn o ganlyniad i unrhyw waith datblygu arfaethedig yn gyfyngedig iawn. Felly, dylid darllen canlyniadau'r asesiad yng nghyd-destun y potensial cyfyngedig iawn hwn.<br><br>Cam Gweithredu A4 yw'r unig Gam Gweithredu y disgwylir iddo gael effaith niwtral am ei fod yn ymwneud â diogelu rhywogaethau. Ni fydd yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y dirwedd na'r forwedd. |
| **Cymeriad Tirwedd – Asedau Treftadaeth**<br>Amcan 13 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Creu cyfleoedd i ddiogelu, gwarchod a gwella amgylchedd hanesyddol Gwastadeddau Gwent ar raddfa tirwedd, gan gynnwys eu hasedau treftadaeth, eu lleoliadau ac arwyddocâd diwylliannol yr ardal<br><br>***Materion a nodir yn Atodlen 2(6) i Reoliadau ASS: Poblogaeth, iechyd pobl, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol a thirwedd*** |
| Rhagwelir y bydd y canllawiau yn cael effaith sylweddol gyffredinol ar amgylchedd hanesyddol Gwastadeddau Gwent, gan gynnwys eu hasedau treftadaeth a'u lleoliadau. Nod y canllawiau yw diogelu rhwydweithiau bioamrywiaeth a gwella gwydnwch hirdymor ecosystemau ar raddfa tirwedd, gan gyfrannu'n uniongyrchol at gynnal priodoleddau nodweddiadol yr ardal. |

Dros amser, rhagwelir effaith synergaidd, lle y bydd tirwedd fwy cadarn a reolir yn well yn creu mwy o gyfleoedd i warchod a gwella amgylchedd hanesyddol Gwastadeddau Gwent.

Ar gyfer Camau Gweithredu 7-11, dylid nodi bod y Parth Craidd eisoes yn cael ei warchod i gryn raddau drwy sawl dynodiad statudol, gan gynnwys SoDdGAau. Felly, fel y nodir yn PCC, ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn gwaith datblygu yn y Parth hwn. O ganlyniad, bydd maint a swm cyffredinol y cyfraniad tuag at gyflawni'r Amcan hwn o ganlyniad i unrhyw waith datblygu arfaethedig yn gyfyngedig iawn. Felly, dylid darllen canlyniadau'r asesiad yng nghyd-destun y potensial cyfyngedig iawn hwn.

Mae Cam Gweithredu A3 yn canolbwyntio'n benodol ar y cysylltiadau swyddogaethol rhwng safleoedd gwarchodedig. Ni fyddai'n cael unrhyw effaith uniongyrchol ar asedau treftadaeth. Mae Cam Gweithredu A4 yn canolbwyntio'n benodol ar y cynefinoedd a'r rhywogaethau a warchodir. Ni fyddai'n cael unrhyw effaith uniongyrchol ar asedau hanesyddol.

**Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr**

Amcan 14 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Gwarchod a gwella cyfleoedd i allyriadau nwyon tŷ gwydr gael eu lleihau, eu storio a'u hatafaelu ledled Gwastadeddau Gwent.

***Materion a nodir yn Atodlen 2(6) i Reoliadau ASS: Iechyd pobl, ffawna, fflora, pridd, aer, ffactorau hinsoddol ac asedau materol***

Ystyrir bod y canllawiau yn cael effaith gadarnhaol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr. Bydd y canllawiau yn helpu i warchod cynefinoedd sy'n helpu i gynnal yr amodau naturiol sy'n cefnogi storio carbon yn yr hirdymor ac yn atgyfnerthu'r prosesau ecolegol sy'n rheoli'r hinsawdd leol. Dros amser, mae hyn yn debygol o gael effaith gadarnhaol sylweddol o Egwyddor Strategol 2 a Chamau Gweithredu 8 a 9 wrth i gyflwr cynefinoedd wella a bydd yn helpu i sicrhau gwydnwch hirdymor. Mae effaith Camau Gweithredu A6 ac A14 yn ansicr o hyd pan nad yw manylion unrhyw gynigion yn hysbys.

Ar gyfer Camau Gweithredu 7-11, dylid nodi bod y Parth Craidd eisoes yn cael ei warchod i gryn raddau drwy sawl dynodiad statudol, gan gynnwys SoDdGAau. Felly, fel y nodir yn PCC, ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn gwaith datblygu yn y Parth hwn. O ganlyniad, bydd maint a swm cyffredinol y cyfraniad tuag at gyflawni'r Amcan hwn o ganlyniad i unrhyw waith datblygu arfaethedig yn gyfyngedig iawn. Felly, dylid darllen canlyniadau'r asesiad yng nghyd-destun y potensial cyfyngedig iawn hwn.

Aseswyd y bydd nifer o gamau gweithredu yn cael canlyniad niwtral, sef Camau Gweithredu A3, A4, A5 ac A10.

**Dŵr**

Amcan 15 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Diogelu a gwella ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr

| |
|---|
| ***Materion a nodir yn Atodlen 2(6) i Reoliadau ASS: Bioamrywiaeth**, **poblogaeth, iechyd pobl, ffawna, fflora, pridd, dŵr, ffactorau hinsoddol a thirwedd*** |
| Disgwylir i'r canllawiau gael effaith gadarnhaol sylweddol gyffredinol ar ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod nodweddion dŵr yn elfen ddiffiniol o dirwedd Gwastadeddau Gwent a bod cysylltiad agos rhyngddynt â chysylltedd cynefinoedd. Dŵr yw system gylchredol ecosystem Gwastadeddau Gwent. Mae'r canllawiau yn rhoi cryn bwyslais ar ddiogelu'r system o 'reens' a'r nodweddion draenio cysylltiedig, gan gefnogi'r nod ehangach o wella rhwydweithiau ecolegol. Dros amser, disgwylir i'r amddiffyniadau hyn wella cyflwr amgylcheddau dŵr sensitif a helpu i gynnal y prosesau hydrolegol sydd eu hangen i sicrhau gweithrediad ecolegol iach. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol yn y tymor canolig i'r hirdymor.<br><br>Ar gyfer Camau Gweithredu 7-11, dylid nodi bod y Parth Craidd eisoes yn cael ei warchod i gryn raddau drwy sawl dynodiad statudol, gan gynnwys SoDdGAau. Felly, fel y nodir yn PCC, ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn gwaith datblygu yn y Parth hwn. O ganlyniad, bydd maint a swm cyffredinol y cyfraniad tuag at gyflawni'r Amcan hwn o ganlyniad i unrhyw waith datblygu arfaethedig yn gyfyngedig iawn. Felly, dylid darllen canlyniadau'r asesiad yng nghyd-destun y potensial cyfyngedig iawn hwn.<br><br>Mae effeithiau Camau Gweithredu A6 ac A14 yn ansicr o hyd gan nad yw manylion unrhyw gynigion yn hysbys. |
| **Rheoli Pridd a Thir**<br>Amcan 16 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig: Diogelu daeareg a phridd a hyrwyddo'r gwaith o ddefnyddio a rheoli tir yn gynaliadwy<br><br>***Materion a nodir yn Atodlen 2(6) i Reoliadau ASS: Bioamrywiaeth, ffawna, fflora, pridd, dŵr, ffactorau hinsoddol, asedau materol a thirwedd*** |
| Disgwylir i'r canllawiau gael effaith gadarnhaol gyffredinol o ran rheoli pridd a thir. Bydd yn gwneud hyn drwy hyrwyddo arferion rheoli tir cynaliadwy a diogelu ac atgyfnerthu rhwydweithiau bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau.<br><br>Ar gyfer Camau Gweithredu 7-11, dylid nodi bod y Parth Craidd eisoes yn cael ei warchod i gryn raddau drwy sawl dynodiad statudol, gan gynnwys SoDdGAau. Felly, fel y nodir yn PCC, ceir rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn gwaith datblygu yn y Parth hwn. O ganlyniad, bydd maint a swm cyffredinol y cyfraniad tuag at gyflawni'r Amcan hwn o ganlyniad i unrhyw waith datblygu arfaethedig yn gyfyngedig iawn. Felly, dylid darllen canlyniadau'r asesiad yng nghyd-destun y potensial cyfyngedig iawn hwn. |

Am fod A4 yn ymwneud â diogelu rhywogaethau, gallai gael effaith gadarnhaol ymylol mewn perthynas â llystyfiant a gwella iechyd priddoedd fel effaith eilaidd. Fodd bynnag, ar y cyfan, ystyrir ei fod yn cael effaith niwtral.

Mae effeithiau Camau Gweithredu A6 ac A14 yn ansicr gan nad yw manylion unrhyw gynigion yn hysbys.

## 7. Sut mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi dylanwadu ar Ganllawiau Cynllunio Strategol Gwastadeddau Gwent

7.1 Gwnaed nifer o argymhellion fel rhan o'r asesiad sydd wedi bwydo i mewn i'r canllawiau a llywio'r fersiwn ymgynghori derfynol. Mae hyn wedi sicrhau bod y canllawiau, wrth iddynt gael eu paratoi, wedi cael eu profi a'u llunio er mwyn cynyddu hyd yr eithaf ar yr effeithiau cadarnhaol ac osgoi effeithiau negyddol neu eu lleihau hyd yr eithaf.

## 8. Osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol a chynyddu hyd yr eithaf ar effeithiau cadarnhaol

8.1 Ar y cyfan, ystyrir bod y canllawiau yn cael effeithiau cadarnhaol a chadarnhaol sylweddol mewn perthynas â'r Amcanion. Yn achos yr Amcanion hynny sy'n canolbwyntio ar yr economi y nodwyd y byddant yn cael effeithiau cadarnhaol ac effeithiau negyddol i ddechrau, ystyrir y bydd y rhain yn troi'n effeithiau cadarnhaol dros amser. Y rheswm dros hyn yw bod y canllawiau yn helpu i lywio twf gwyrdd cynaliadwy lle nad yw gwaith datblygu yn dderbyniol fel arall. Lle mae'r effeithiau yn ansicr, mae hyn i'w briodoli i raddau helaeth i'r ffaith nad yw manylion cynlluniau yn hysbys ar hyn o bryd o ran pa fuddion y gallent gyfrannu atynt yn y pen draw.

## 9. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

9.1 Mae gwaith i fodloni gofynion yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a bydd yn parhau i gael ei wneud gyda chyfranogiad Cyfoeth Naturiol Cymru , gan sicrhau bod yr asesiad yn gadarn a'i fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cynefinoedd. Bydd canlyniadau proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd yn dylanwadu ar y broses o lunio'r drafft terfynol o'r canllawiau a gallent arwain at newidiadau o'r fersiwn ddrafft lle y bo angen. Bydd hyn yn sicrhau bod y canllawiau yn bodloni gofynion y rheoliadau ac yn dangos na fydd unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd dynodedig Ewropeaidd a rhyngwladol.

**10. Monitro effeithiau arwyddocaol**

10.1 Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi nodi effeithiau tebygol y canllawiau ar Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Rhoddwyd rhyw syniad o sicrwydd yr effeithiau hyn hefyd. Fodd bynnag, mae risg y bydd yr effeithiau ar gynaliadwyedd yn wahanol i'r rhai a ragwelir, yn arbennig mewn perthynas ag unrhyw amgylchiadau annisgwyl. Felly, mae'n elfen hanfodol o'r gwaith o sicrhau datblygu cynaliadwy er mwyn monitro effeithiau arwyddocaol y canllawiau mewn perthynas â'r effeithiau a ragwelir. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r canllawiau gael eu diweddaru, yn ôl yr angen, os bydd effeithiau negyddol annisgwyl yn codi neu os na fydd effeithiau cadarnhaol disgwyliedig yn codi.

10.2 Cyflwynir Fframwaith Monitro, sy'n cynnwys yr effeithiau hynny rydym yn awyddus i'w monitro, yn yr Adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sy'n nodi nifer o ddangosyddion i'w monitro sy'n berthnasol i effeithiau tebygol y canllawiau. Ar ôl i'r canllawiau terfynol gael eu cyhoeddi, caiff Datganiad Ar Ôl Cyhoeddi ei lunio, gan gynnwys Datganiad o Fanylion Amgylcheddol. Bydd y Datganiad hwn yn rhoi manylion am y ffordd y mae proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi dylanwadau ar y broses o ddatblygu'r canllawiau a'r effeithiau arwyddocaol a ragwelir, yn ogystal â'r Fframwaith Monitro.